
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Y Strategaeth Ddigidol
## Prif ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymateb iddo



# Cefndir

Rhwng 6 Mai a 9 Gorffennaf 2024, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion y sir a'r rhanddeiliaid ynghylch y Strategaeth Ddigidol ddrafft.

Roedd y strategaeth ddrafft eisoes wedi bod gerbron y Grŵp Cydnerthedd Seiber, y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Dynol er mwyn cael adborth mewnol ac ymateb iddo.

Roedd yr arolwg ar gael fel arolwg ar-lein, mewn fformat print traddodiadol ac mewn fformat hawdd ei ddeall. Roedd copïau papur ar gael yn y llyfrgelloedd, ar y desgiau gwasanaeth i gwsmeriaid a thrwy gysylltu â gwasanaeth CLIC.

Gallai ymatebwyr hefyd ofyn am gael ymateb dros y ffôn a chafwyd rhai ymatebion manwl ar e-bost. Yn ogystal, cawsom ymateb ffurfiol oddi wrth Fwrdd Iechyd lleol wrth i ni barhau i geisio gwella gwaith strategol ar draws y rhanbarth.

Rhoddwyd Cynllun Cyfathrebu ar waith ac roedd hyn yn cynnwys datganiad i'r wasg wrth lansio'r ymgynghoriad ynghyd â negeseuon ar Twitter, Facebook ac Instagram a bostiwyd gan y Tîm Cyfathrebu. Dangosir sampl o'r deunyddiau hyrwyddo hyn isod.







# Y Gyfradd Ymateb

Cafwyd 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 2 ymateb drwy e-bost sy'n gyfanswm o 29 o ymatebion.

Roedd nifer o'r ymatebion yn amlwg yn rhai a oedd wedi'u hanfon atom fel protest ac nid oedd y sylwadau hyn o unrhyw gymorth i ni. Mae ymateb mor isel â hyn yn cael effaith ar y canrannau sydd wedi'u crynhoi yn y ddogfen hon. Serch hynny, mae'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys.

Roedd 42% o'r rhai a ymatebodd yn ddynion ac roedd 38% yn fenywod.

Mae dadansoddiad o oedran y sawl wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad i'w weld isod.

| | |
|---|---|
| 0-15 | 0% |
| 16-25 | 0% |
| 25-44 | 11% |
| 45-64 | 57% |
| 65+ | 11% |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 19% |

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# Prif Ganfyddiadau'r Ymgynghoriad

## 27

o ymatebion wedi dod i law.

## 41%

o'r ymatebion hyn oddi wrth staff y Cyngor neu'r Cynghorwyr.

## 48%

yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cysyniad o strategaeth dros 6 blynedd a 3 chynllun dwyflynyddol

## 26%

yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r cysyniad o strategaeth dros 6 blynedd a 3 chynllun dwyflynyddol

## 5.96

- dyma'r sgôr allan o 10 y gwnaeth y defnyddwyr ei rhoi i'r strategaeth

## 44%

yn cytuno bod y strategaeth yn caniatáu i ni flaenoriaethu gwaith yn effeithiol.

## 48%

o'r farn y byddai'r strategaeth yn gwella gwasanaethau'r Cyngor

## 37%

o'r farn na fyddai'r strategaeth yn gwella gwasanaethau'r Cyngor

## Sylwadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau pellach. Gwnaeth y rhan fwyaf roi sylwadau, ac mae pob un o’r sylwadau hyn wedi’u darllen a’u hystyried.

Nid oedd fawr ddim cysondeb yn y sylwadau a gafwyd er bod modd i ni weld rhai themâu.

- Gallu’r staff a hyfforddiant i’r staff – Mae hyn wedi’i gydnabod yn y strategaeth a bydd angen datblygu adnoddau a chynlluniau ar gyfer hyn. Mae’r strategaeth yn sôn am wella hyder digidol y staff a chaiff cynlluniau eu datblygu i nodi’r gwaith y mae angen ei wneud i gyflawni hyn.
- Cynnwys trigolion y sir ac ystyried eu gallu digidol – Unwaith eto, mae hyn wedi’i gydnabod yn y strategaeth, a bydd angen i ni ddatblygu cynlluniau i sicrhau bod cefnogaeth ar gael. Rydym eisoes yn gwneud hyn drwy wasanaethau megis Dysgu Bro, llyfrgelloedd y cyngor a’r cysylltwyr cymunedol. Bydd yr hyn a gynigir yn cael ei ddatblygu ac wrth gynllunio, byddwn yn sicrhau bod hyder ymhlith y cyhoedd yn cael ei gynnwys.
- Mwy o ymgysylltu â’r gymuned o ran gwaith digidol – Bydd hyn yn allweddol. Fel rhan o’r safonau dylunio gwasanaethau a nodir yn y strategaeth, bydd angen i ni gynnwys y gymuned. Awgrymodd eraill fod angen i ni ddiffinio sut y bydd y grwpiau cynrychioladol yn cael eu dewis. Rhywbeth i’w ystyried fel rhan o’r cynllun digidol fydd hyn.
- Sylwadau gwrth-ddigidol – Cafwyd amrywiaeth o sylwadau megis ‘ewch yn ôl i’r swyddfa’, ‘dylai cyswllt fod wyneb yn wyneb’ ac ati, sy’n dangos bod rhywfaint o safbwyntiau gwrth-ddigidol yn bodoli. Mae hyn wedi’i gydnabod yn y strategaeth, ac rydym wedi nodi’r angen am sianeli wyneb yn wyneb a mynediad annigidol ar gyfer dinasyddion.
- Pryderon ynghylch Deallusrwydd Artiffisial (AI) – Roedd nifer o’r sylwadau a oedd o blaid ac yn erbyn Deallusrwydd Artiffisial wedi mynegi pryderon. Mae’r strategaeth yn nodi bod angen i ni fod yn ofalus wrth geisio deall AI a dysgu amdano. Mae Polisi ynghylch Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei baratoi a dyma fydd y canllaw ar gyfer unrhyw waith ym maes Dealltwriaeth Artiffisial yn y dyfodol. Yn amlwg, mae’r maes hwn yn un sy’n symud yn gyflym iawn. Mae’n cynnig posibiliadau rhyfeddol ond bydd angen ei reoli’n ofalus. Mae newidiadau wedi’u gwneud yn y strategaeth i gyfleu hyn yn well.
- Cadwraeth Ddigidol yn yr Hirdymor – Nid oedd y strategaeth yn cyfeirio at y maes hwn. Er bod gwaith bellach ar y gweill, mae’r strategaeth wedi’i diwygio i gydnabod yr angen hwn.

## Ymatebion manwl

Cafwyd ymateb manwl oddi wrth y bwrdd iechyd a oedd yn awgrymu amrywiaeth o fân welliannau a allai helpu i wella’r strategaeth yn gyffredinol neu sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn well â strategaethau Hywel Dda. Gwnaeth ymateb y bwrdd iechyd hefyd dynnu sylw at nifer o’r pethau sy’n debyg a’r hyn sydd eisoes yn gyson.

Roedd rhai o’r awgrymiadau yn rhai technegol ac roeddent yn rhai a fyddai’n fwy addas eu cynnwys yn y cynlluniau a gyhoeddir bob dwy flynedd ac felly byddant yn cael eu hystyried ar gyfer y rhain. Bydd sylwadau eraill yn cael eu defnyddio i wella fersiwn derfynol y strategaeth.

Cafwyd ymateb manwl arall oddi wrth aelod o staff y Cyngor. Roedd y sylwadau hyn yn werthfawr iawn wrth i ni fynd ati i fireinio’r strategaeth a byddant yn cael eu hystyried yn llawn cyn cyhoeddi’r fersiwn derfynol.

## Casgliad

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi darparu ystod o sylwadau gwerthfawr sydd wedi gwella'r strategaeth a'r trefniadau llywodraethu ac mae'r ddogfen bellach yn haws i'w deall.

Caiff fersiwn derfynol o'r strategaeth sy'n cynnwys y newidiadau hyn ei chyflwyno gerbron y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Craffu perthnasol cyn y bydd y Cyngor llawn yn mynd ati i'w mabwysiadu.